

Cyngor Cymuned Llangelynnin Community Council

Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd Nos Fercher – 14.06.23 - am 7yh yn Y Ganolfan, Llwyngwril

Presennol: Geraint Edwards – (GE -Cadeirydd), Huw Davies (HD), Nicola Roberts (NR), Jenny Warne (JW), Ian Williams (IW), Keith Carroll (KC), Jane Jenkins (JJ) – Clerc.

1. **Ymddiheuriadau:** David Griffiths, Geraint Micah, Jane Lawrence, Louise Hughes (Cynghorydd Sirol).
2. **Croeso'r Cadeirydd:** Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.
2.1 **Datgan Diddordeb:** Dim.

Aelodau'r gymuned yn bresennol yn y cyfarfod: Mike Senior, John Williams, Fiona Williams

Mike Senior (MS): Cafodd MS ei wahodd i'r cyfarfod gan fod angen eglurhad ganddo ynglyn a phwy oedd yn gyfrifol am y diffibrilwyr yn Llwyngwril a Rhoslefain. Darllenodd MS ddatganiad yr oedd wedi'i baratoi a oedd yn cynnwys costa, disgwyliad oes yr offer, cyllid a allai fod ar gael (ond cadarnhaodd hefyd nad oedd unrhyw gyllid ar gael). 'Roedd hefyd am wneud aelodau'r Cyngor yn ymwybodol o'r Rheoliadau Dyfeisiau Meddygol (MDR) a allai effeithio diffibrilwyr ardal Llwyngwril os nad oeddent yn bodloni'r rheoliadau.

Eglurodd ei fod wedi ceisio cael atebion yn barod at y cyfarfod, ond nid oedd wedi gallu gwneud hynny.

Eglurodd MS mai'r drefn arferol oedd cael "Gwarcheidwad" ar gyfer y diffibrilwyr, a chadarnhaodd mai ef oedd "Gwarcheidwad" dau ddiffibrilwyr y Cyngor Cymuned (un yn Rhoslefain ag un yn Llwyngwril). Yn syml, roedd hyn yn golygu ei fod yn gyfrifol am checio yr offer yn rheolaidd, checio dyddiadau dod i ben yn ymwneud â phadiau a batris, a chynghori'r Clerc pan oedd angen rhai newydd, er mwyn gallu eu harchebu. Cadarnhaodd MS mai dyddiad dod i ben y padiau ar gyfer diffibriliwr Llwyngwril ar hyn o bryd oedd 2025 a Rhoslefain 2024. Hyd oes y batri oedd 3-4 blynedd. Roedd y ddau ddiffibriliwr yn cario set sbâr o badiu. Mae'r diffibrilwyr yn wahanol – iPad Llwyngwril/Rhoslefain Zoll. Cytunodd pawb fod MS yn parhau fel "Gwarcheidwad". Roedd MS am roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni am yr MDRs cyn gynted ag y byddai wedi cael diweddariad. Cadarnhaodd JJ ei bod yn ymwybodol o ble roedd angen archebu eitemau newydd.

JJ i gadarnhau trafodaethau ysgrifenedig gydag MS.

John a Fiona Williams: Roedd Mr Williams wedi gofyn eisoes i fynychu y cyfarfod er mwyn egluro ei bryderon ysgrifenedig i Barc Cenedlaethol Eryri (Mrs Iona Roberts) ynghylch y cais cynllunio oedd wedi ei gyflwyno ar Sarah's Ridge.

Eglurodd JW a FW mai eu hunig bryder oedd maint y balconi, ar y cynlluniau arfaethedig, a fyddai'n arwain iddynt golli eu preifatrwydd, a oedd yn annerbyniol i JW a FW. Cadarnhawyd nad oeddent, mewn egwyddor, yn gwrthwynebu balconi fel y cyfryw, ond y dylai fod yn gydnaws â graddfa a chymeriad yr anheddau presennol. Dywedasant fod eu balconi yn ymestyn 2 ½ troedfedd, ond eto byddai'r balconi arfaethedig ar gyfer Sarah's Ridge yn ymestyn 15 troedfedd. Dywedasant ymhellach fod Iona Roberts wedi mynychu Sarah's Ridge ar 01.06.23, a'u bod wedi siarad â hi am eu pryderon. Dywedodd y Cyngor y byddai'r mater yn cael ei drafod ymhellach yn hwyrach yn y cyfarfod ar y pwynt agenda arferol – Materion Cynllunio (6). Dywedodd GE, er mwyn gwneud Mr a Mrs Williams yn ymwybodol, bod y Cyngor Cymuned yn gyffredinol o'r farn fod Y Parc Cenedlaethol Eryri yn drylwyr iawn wrth ymdrin â'r ceisiadau cynllunio hyn, ac felly mae'n anarferol i'r Cyngor Cymuned wneud sylwadau neu ymyrryd.

3. **Cymeradwyo Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf:** cofnodion y cyfarfod Mis Mai wedi eu cymeradwyo yn gywir.
Cynnig: KC **Eiliwyd:** HD **Arwyddwyd:** GE

4. **Materion yn codi o'r Cofnodion Blaenorol**

- Mae'r Archwiliad Mewnol wedi'i gwblhau a'i gymeradwyo heb unrhyw sylwadau a'r adroddiad wedi'i dderbyn.
- Mae Hysbysiad yr Archwiliad Allanol newydd ddod i law.

- Ni wnaed unrhyw alwad am etholiad felly roedd Hysbysiad Cyd-Opsiwn wedi'i gyhoeddi a'i arddangos o amgylch yr ardal ac ar Grŵp Gwerthfawrogiad Llwyngwriol. Y dyddiad terfyn ar gyfer ymgeisio oedd 30.06.23.

Roedd DG wedi hysbysu JJ ei fod wedi edrych ar safle Cyngor Tref Tywyn, a pan oedd mwy nag un ymgeisydd yn gwneud cais, roeddent yn cynnal cyfarfod arbennig, a gwahodd yr ymgeiswyr i egluro eu rhesymau i ymuno a'r cyngor.

- Roedd cwyn ffurfiol wedi'i wneud i Network Rail yngyn a diffyg gwybodaeth ar brosiect y wal derfyn ger Friog, ynghyd â chais i uwch swyddog ddod i'n cyfarfod ym Mis Gorffennaf, i roi diweddariad cywir. Fe'i gwnaed yn glir pe na bai ymateb boddhaol yn cael ei dderbyn, yna byddai'r mater yn cael ei drosglwyddo i'r Ombwdsmon Rheilffyrdd. Nid oedd unrhyw ymateb wedi ei dderbyn hyd yma.

- Mae Cyngor Gwynedd (Adrian Williams) wedi methu ag ymateb i e-byst a anfonwyd ynglŷn â dŵr yn rhedeg i lawr y ffordd ger Y Nant, wal ger Llechwedd, Ffordd y Coleg, a mater wal derfyn ger Friog. Cadarnhaodd DG fod Sion Wilkes (CG) wedi archwilio'r safle ger Llechwedd a doedd dim i'w wneud tan i'r wal ddod i lawr.

Cytunodd pawb y dylai JJ ysgrifennu llythyr ffurfiol i Gyngor Gwynedd yn mynegi siom am fethiant i ymateb ei e-byst mewn modd amserol, a gofyn i'r mater gael ei uwchgyfeirio.

- Llythyr wedi ei anfon at Hannah Johns yn dilyn ei chais am fwy o wybodaeth ynglŷn â'r Carnifal oedd wedi ei gynllunio ar gyfer Awst 2023. Ni dderbyniwyd ymateb pellach ganddi.

5. Gohebiaeth wedi eu derbyn:

a) Derbyniwyd llythyr gan SAAFA yn gofyn am gymorth ariannol. Ar ôl trafod y mater, cytunodd y Cyngor i adolygu'r cais eto yn ddiweddarach yn y flwyddyn ariannol, pan fyddai gwell syniad o'r sefyllfa ariannol ar gael.

b) 'Roedd y "Rhybudd o Gyd-Opsiwn" wedi ei drafod yn gynharach yn y cyfarfod o dan "Materion yn Codi"— (4).

6. Materion Cynllunio:

(1) Sarah's Ridge, Llwyngwriol. Rhoddodd y Cyngor ystyriaeth i'r wybodaeth a ddarparwyd gan Mr a Mrs Williams ac ar ôl trafodaeth, cytunodd pawb nad oedd unrhyw sylwadau na gwrthwynebiadau pellach i'w gwneud.

JJ i anfon llythyr at Barc Cenedlaethol Eryri (SNP) yn hysbysu nad oedd gan y Cyngor Cymuned unrhyw sylwadau na gwrthwynebiadau, ond eu bod yn ymwybodol o bryderon Mr a Mrs Williams a wnaed i'r Parc.

(2) Siop Fferm Hendre Hall, Llwyngwriol. Cododd y mater hwn amryw o bryderon oedd angen eglurhad cyn i'r Cyngor Cymuned allu gwneud sylwadau priodol:-

- Nid yw'r Cyngor Cymuned wedi derbyn unrhyw gais am Newid Defnydd mewn perthynas â'r adeilad.
- Nid yw'r Cyngor Cymuned wedi gweld unrhyw gais blaenorol i werthu alcohol yn y siop, nac unrhyw ran arall o'r safle, ond mae alcohol ar gael o 9 y bore tan 9 yr hwyr, o leia pedwar diwrnod yr wythnos ers sawl wythnos bellach.
- Mae'r Cyngor Cymuned yn gyfrifol am y Cae Chwarae ger yr Hendre, a hoffai'r Cyngor Cymuned weld pa gynlluniau sydd wedi eu rhoi mewn lle i sicrhau na fydd ymddygiad meddw ac afreolus yn amharu ar yr amgylchedd yr ardal teuluol/plant hwn.
- Nid yw'r Cyngor Cymuned wedi gweld unrhyw hysbysiadau yn ymwneud â'r cais arfaethedig, naill ai'n agos i'r safle, nac mewn papur newydd lleol, sy'n ofyniad penodol o Ddeddf Trwyddedu 2003.

JJ i ysgrifennu at Gyngor Gwynedd i fynegi'r pryderon hyn ac i ofyn am estyniad yn rhoi cyfle i bobl gyflwyno sylwadau os dymunant, ac i'r Cyngor Cymuned allu trafod ymhellach yng nghyfarfod Mis Gorffennaf – 12.07.23.

7. Adroddiad Ariannol:

a) **Adroddiad Ariannol ar gyfer 24/04/23 i 21/05/23** - Cytunwyd fel gwir gyfrif a chymeradwywyd.

Cynnig: HD Eilwyd: JW Arwyddwyd: GE

b) **Taliadau** - Tri sic e i'w harwyddo: Cyflog y Clerc, Treth incwm HMRC, ac adnewyddu ffi blynyddol Diogelu Data.

c) **Bancio Ar-lein (Nat West)** – eglurodd JJ fod problem wedi codi gyda'r dogfennau gwreiddiol a anfonwyd i'w harwyddo ond eu bod bellach wedi'u cywiro a'i bod yn deall mai IW efallai oedd heb ei llofnodi. Cadarnhaodd IW ei fod wedi'i dderbyn ac y byddai'n llofnodi nawr. Cadarnhaodd JJ, as ol siarad â Nat West, nad oedd unrhyw ffordd y gellid gwneud taliadau ar-lein gan nad oeddent yn cynnig llofnod deuol, felly byddai'r cyfrif ar-lein yn syml i edrych ar y sefyllfa ariannol pe bai datganiadau'n cyrraedd yn hwyr.

d) **Codi Arian** - Derbyniodd JJ **£85.00** gan KC a gafodd ei godi drwy gynnal tri “arwerthiant cist car”.
Roedd yr arian yma i'w glustnodi at brynu diffibriliwr yn y dyfodol. JJ i drefnu talu'r swm hwn i'r banc.

8. **Adroddiadau gan y Cynrychiolwyr:**

Dywedodd JJ fod DG wedi mynychu cyfarfod adolygu'r Cynllun Datblygu Lleol yr wythnos diwethaf.
Gan fod y cynllun wedi bod yn rhedeg ers 2016 cadarnhaodd DG ei fod angen darllen mwy am beth sydd dan sylw.

9. **Adroddiad y Cynghorydd Sirol:** Dim yn bresennol.

10. **Unrhyw Fater Arall:**

- Dywedodd NR fod grŵp newydd (Digwyddiadau Llwyngwriol) wedi'i ffurfio a bod pwyllgor wedi'i sefydlu. Byddai'r grŵp hwn yn cynnwys holl weithgareddau a drefnir gan NR yn y pentref, gan ganiatáu arian gael ei godi a'i reoli gan yr un grŵp. Cadarnhaodd fod Banc Barclays yn gallu agor cyfrif priodol i alluogi arian y grŵp gael ei gadw yn ddiogel. Roedd cyfarfod pellach wedi'i drefnu a byddai rhagor o wybodaeth yn dilyn yn ddiweddarach.

- Nodwyd bod y giât i groesi'r rheilffordd ger y Crynwyr, wedi'i gorchuddio â rhwyll wifrog a oedd o bosibl yn creu perygl. Cynigiodd IW roi galwad i Network Rail a fyddai, gobeithio, yn gweld datrysiaid cyflym.

- Cododd JJ fater goryrru a gyrru peryglus drwy bentref Rhoslefain. Roedd DG wedi derbyn cwynion. Nodwyd hefyd eu bod ar sawl achlysur, nid yn unig yn goryrru ond bod pobl ifanc yn eu harddegau yn hongian allan o ffenestri'r car. Ystyriwyd mai mater o amser yn unig oedd hyn cyn i rywun gael ei anafu yn ddifrifol, neu ei ladd. Dywedodd JJ ei bod wedi gweld yr un peth yn Llwyngwriol yn hwyr yn y nos. Cytunodd pawb y dylai JJ gysylltu â Heddlu Gogledd Cymru gyda'r bwriad o dynnu sylw at y materion hyn a gofyn am gymorth i ddelio â nhw.

Mater i gael sylw eto yng nghyfarfod Mis Gorffennaf.

- Dywedodd JJ fod DG eisiau gwirfoddolwr o'r Cyngor Cymuned i fynychu cyfarfodydd SARPA. Nodwyd tra bod SARPA yn ymdrin â materion trafndiaeth yn bennaf, byddai wal derfyn ger Friog yn cael effaith ddifrifol ar Reilffordd y Cambrian a threnau arno pe bai'n cwmpo ymhellach neu os byddai damwain ffordd gyda rhywun yn mynd oddi ar y ffordd. **Mater i gael sylw eto yng nghyfarfod Mis Gorffennaf.**

- **Rheolau Sefydlog a Rheoliadau Ariannol** – dywedodd JJ fod angen diweddarau rhain mewn pryd ar gyfer yr Archwiliad Allanol. Anfon copi o'r hen a'r arfaethedig at bawb er mwyn iddynt allu adolygu a gwneud unrhyw sylwadau yng nghyfarfod Mis Gorffennaf.

Dyddiad y Cyfarfod Nesaf: Nos Fercher 12.07.23 am 7 o'r gloch yn Y Ganolfan, Llwyngwriol

Arwyddwyd

Cadeirydd Dyddiad